# Cardiff Council Update: 11th August

Here is the latest update from Cardiff Council, covering: the Race Equality Taskforce is seeking applications for membership and views on what its priorities should be; there's still time to have a say on the Tudor Street improvement plans; and you can get in touch with our C2C contact centre team until 8pm via live web chat.

## Cardiff Race Equality Taskforce

Racial inequality continues to exist in Cardiff, Wales and the UK. In autumn 2020, we will convene a Race Equality Taskforce to address racial discrimination and promote race equality in the city.

The Taskforce will drive coordinated and strategic action to address inequality in Cardiff, in collaboration with our public sector partners and major employers in the city. It will be responsible for advancing a programme of change and transformation to create a fairer city for our residents from ethnic minority backgrounds.

Over the summer of 2020, we will deliver a public consultation on the priority work streams of the Race Equality Taskforce to understand what our residents think are the biggest issues, and the greatest opportunities, for Cardiffians from ethnic minority backgrounds, so we can focus our thinking and resources into finding the solutions that will have the greatest impact.

### Call for membership

We are seeking applications for Taskforce Membership from individuals with insight and interest in race, ethnicity and human rights, who have the ability, experience, opportunity and influence to make changes in their sector, industry and institutions or organisations.

Race Equality Taskforce Members will support the Taskforce Chair, Cllr Saeed Ebrahim, to deliver a programme of work which delivers the following objectives:

- Work with Cardiff's communities and organisations to improve and prioritise race equality to achieve an inclusive, cohesive, thriving and representative city;
- Guide Cardiff's policy and strategy developers to make sure race equality is included in all of their work;
- Use the Council's convening power to advance race equality in the public, private and voluntary sector, working closely, where required, with the Cardiff Public Services Board;
- Coordinate actions and recommendations to advance race equality, focusing on priority work-streams, identified in consultation with the City's BAME residents;

- Report on progress on race equality and the general impact of inequality and discrimination on the BAME communities of Cardiff.

Application Form - Race Equality Taskforce:
https://www.cardiff.gov.uk/ENG/Your-Council/Strategies-plans-and-policies/Equality-diversity-and-cohesion/race-equality-taskforce/Documents/0001803%20RC%20Race%20Eq%20Task%20App%20Form%202020%20E1.pdf

Application Guidance - Race Equality Taskforce:
https://www.cardiff.gov.uk/ENG/Your-Council/Strategies-plans-and-policies/Equality-diversity-and-cohesion/race-equality-taskforce/Documents/0001803%20RC%20Race%20Eq%20Task%20App%20Form%20Guidance%202020%20E1.pdf

Please submit your completed application form to: equalityteam@cardiff.gov.uk by the closing date of Friday 18th September 2020, by 5pm.

**Consultation: Your priorities for the Cardiff Race Equality Taskforce**
In preparation for the launch of the Race Equality Taskforce, we are launching a public consultation to seek the views of Cardiff residents, particularly those from Black and Minority Ethnic backgrounds, on the Taskforce's strategic priorities.

We want to know what our residents think are the biggest issues, and the greatest opportunities, for Black and Minority Ethnic Cardiffians, so we can focus our thinking and resources into finding the solutions that will have the greatest impact.

View the consultation here:
https://wh1.snapsurveys.com/s.asp?k=159595712042

**Multi-million pound regeneration boost for Tudor Street**

Cardiff's Tudor Street is set to benefit from a multi-million pound regeneration programme designed to create an attractive and vibrant shopping area for the local community and visitors to the Riverside area.

Phase one of the development will see £1m invested in commercial premises which have signed up to take part in the Tudor Street building improvement scheme.

Further funding of approximately £3m has been earmarked for work in early 2021 which will enable a large transformation of the whole street environment.

Consultation on the 2021 work closes the 17th August, and the scheme aims to deliver:

- New two-way, segregated cycle lane from Wood Street Bridge to the junction with Clare Street
- A new bus island opposite Plantagenet Street, facilitating bus travel into Central Square and the wider city centre
- New green infrastructure, specifically trees and the planting of rain gardens, promoting opportunities for biodiversity and improved air quality;
- A pleasant and welcoming public environment, enhancing the Gateway into South Riverside from the city centre, with prioritised pedestrian movement through wider pavements and improved pedestrian crossings
- Enhanced access to the Taff trail through realigning the existing ramp and steps at the junction with Tudor Street and
- An improved street environment with new paving, street furniture and lighting

Click here to view the consultation and have your say: https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Parking-roads-and-travel/transport-projects/Consultations/Pages/default.aspx

**Talk to us online**

If you need to speak to speak to us after 6pm there's no need to wait until our phone lines open again in the morning.

You can get in touch with our C2C contact centre team until 8pm via live web chat.

Read more here:

https://www.cardiff.gov.uk/ENG/Home/Contact-us/Talk-to-us-online/Pages/default.aspx

## Diweddariad Cyngor Caerdydd: 11 Awst

Dyma'r wybodaeth ddiweddaraf gan Gyngor Caerdydd, sy'n ymdrin â'r canlynol: mae'r Tasglu Cydraddoldeb Hiliol yn ceisio ceisiadau am aelodaeth a barn ar beth ddylai ei flaenoriaethau fod; mae amser o hyd i gael lleisio barn ar gynlluniau i wella Tudor Street; a gallwch gysylltu â thîm canolfan gyswllt C2C tan 8pm drwy'r gwasanaeth gwe-sgwrsio byw.

**Tasglu Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd**

Mae anghydraddoldeb hiliol yn parhau i fodoli yng Nghaerdydd, Cymru a'r DU. Yn hydref 2020, bydd Cyngor Caerdydd yn cynnull Tasglu Cydraddoldeb Hiliol i fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail hil a hyrwyddo cydraddoldeb hiliol yn y ddinas.

Bydd y Tasglu yn arwain camau gweithredu cydlynol a strategol i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb yng Nghaerdydd, ar y cyd â'n partneriaid yn y sector cyhoeddus a chyflogwyr pwysig y ddinas. Bydd yn gyfrifol am hyrwyddo rhaglen o newid a thrawsnewid er mwyn creu dinas decach i'n preswylwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.

Yn ystod haf 2020, byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar ffrydiau gwaith â blaenoriaeth y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol er mwyn deall beth ym marn ein preswylwyr yw'r problemau mwyaf, a'r cyfleoedd mwyaf, i drigolion Caerdydd sydd o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, fel y gallwn ganolbwyntio ein syniadau a'n hadnoddau i ganfod yr atebion a fydd yn cael yr effaith fwyaf.

**Galw am aelodau**

Rydym yn chwilio am geisiadau ar gyfer Aelodaeth y Tasglu gan unigolion sydd â mewnwelediad a diddordeb mewn hil, ethnigrwydd a hawliau dynol sydd â'r gallu, y profiad, y cyfle a'r dylanwad i wneud newidiadau yn eu sector, eu diwydiant a'u sefydliadau.

Bydd Aelodau'r Tasglu Cydraddoldeb Hiliol yn cefnogi Cadeirydd y Tasglu, y Cynghorydd Saeed Ebrahim, i gyflawni rhaglen waith sy'n cyflawni'r amcanion canlynol:

- Gweithio gyda chymunedau a sefydliadau Caerdydd i wella a blaenoriaethu cydraddoldeb hiliol er mwyn sicrhau dinas gynhwysol, gydlynol, ffyniannus a chynrychioliadol;
- Arwain datblygwyr polisïau a strategaethau Caerdydd i sicrhau bod cydraddoldeb hiliol yn cael ei gynnwys yn eu holl waith;
- Defnyddio pŵer cynnull y Cyngor i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, gan weithio'n agos, lle bo angen, gyda Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd;
- Cydlynu camau gweithredu ac argymhellion i hybu cydraddoldeb hiliol, gan ganolbwyntio ar ffrydiau gwaith â blaenoriaeth wedi'u nodi trwy ymgynghori â phreswylwyr BAME y ddinas;
- Adrodd am gynnydd o ran cydraddoldeb hiliol ac effaith gyffredinol anghydraddoldeb a gwahaniaethu ar gymunedau BAME yng Nghaerdydd.

Ffurflen Gais ar gyfer Ymaelodi â'r Tasglu Cydraddoldeb Hiliol:
https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Eich-Cyngor/Strategaethau-cynlluniau-a-pholisiau/Cydraddoldeb-amrywiaeth-a-chydlyniant/tasglu-cydraddoldeb-

hiliol/Documents/0001803%20RC%20Race%20Eq%20Task%20App%20Form%202020%20W1.pdf

Canllawiau Gwneud Cais y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol:
https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Eich-Cyngor/Strategaethau-cynlluniau-a-pholisiau/Cydraddoldeb-amrywiaeth-a-chydlyniant/tasglu-cydraddoldeb-hiliol/Documents/0001803%20RC%20Race%20Eq%20Task%20App%20Form%20Guidance%202020%20W2.pdf

Anfonwch eich ffurflen gais wedi'i llenwi i timcydraddoldeb@caerdydd.gov.uk erbyn y dyddiad cau, sef dydd Gwener 18 Medi 2020, erbyn 5pm.

**Ymgynghoriad: Eich blaenoriaethau ar gyfer Tasglu Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd**
Er mwyn paratoi ar gyfer lansio'r Tasglu Cydraddoldeb Hiliol, rydym yn lansio ymgynghoriad cyhoeddus i geisio barn preswylwyr Caerdydd, yn enwedig y rheini o gefndiroedd Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, ar flaenoriaethau strategol y Tasglu.

Rydym am wybod beth yw barn ein preswylwyr ar y problemau mwyaf, a'r cyfleoedd mwyaf, i drigolion Caerdydd sydd o gefndiroedd Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig, fel y gallwn ganolbwyntio ein syniadau a'n hadnoddau i ddod o hyd i'r atebion a fydd yn cael yr effaith fwyaf.

Gweld yr ymgynghoriad yma:
https://wh1.snapsurveys.com/s.asp?k=159680484480

**Hwb adfywio gwerth miliynau o bunnoedd i Tudor Street**

Bydd Tudor Street yng Nghaerdydd yn elwa ar raglen adfywio gwerth miliynau o bunnoedd sydd â'r nod o greu ardal siopa ddeniadol a bywiog ar gyfer y gymuned leol ac ymwelwyr ag ardal Glan-yr-afon.

Bydd cam un y datblygiad yn gweld £1m yn cael ei fuddsoddi mewn safleoedd masnachol sydd wedi ymrwymo i gymryd rhan yng nghynllun gwella adeiladau Tudor Street.

Mae cyllid pellach o tua £3m wedi'i glustnodi ar gyfer gwaith yn gynnar yn 2021 a fydd yn galluogi trawsnewidiad mawr i amgylchedd y stryd gyfan.

Mae ymgynghoriad ar waith 2021 yn cau ar 17 Awst, a nod y cynllun yw cyflawni:

- Lôn feiciau ddwy ffordd newydd, ar wahân, o Bont Stryd Wood i'r gyffordd â Clare Street

- Ynys fysus newydd gyferbyn â Plantagenet Street, yn hwyluso teithio ar fysus i'r Sgwâr Canolog a chanol y ddinas yn ehangach
- Seilwaith gwyrdd newydd, yn benodol coed a gerddi glaw, gan hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer bioamrywiaeth a gwell ansawdd aer
- Amgylchedd cyhoeddus dymunol a chroesawgar, gwella'r Porth i Dde Glan-yr-afon o ganol y ddinas, gyda blaenoriaeth i gerddwyr drwy balmentydd lletach a gwell croesfannau i gerddwyr
- Gwell mynediad i Daith Taf drwy ailalinio'r ramp a'r grisiau presennol wrth y gyffordd â Tudor Street ac
- Amgylchedd stryd rhagorach, gyda phalmentydd, celfi stryd a goleuadau newydd

Cliciwch yma i weld yr ymgynghoriad ac i ddweud eich dweud: https://www.cardiff.gov.uk/CYM/preswylydd/Parcio-Ffyrdd-a-Theithio/Projectau-Trafnidiaeth/Ymgynghoriadau/Pages/default.aspx

**Siaradwch â ni ar-lein**

Os oes angen i chi siarad â ni ar ôl 6pm does dim angen aros i'n llinellau ffôn agor eto yn y bore.

Gallwch gysylltu â thîm canolfan gyswllt C2C tan 8pm drwy'r gwasanaeth gwe-sgwrsio byw.

Darllenwch fwy yma:
https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Hafan/Cysylltu-ar-Cyngor/Siaradwch-a-ni-arlein/Pages/default.aspx